# CYNGOR CYMUNED BUAN

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd nos Iau, 8 Medi, 2022
Yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy

Presennol:

Cynghorwyr:

Catherine Hughes
Tesni Jones
Nia W. Jones
Einir Lewis
Gareth Roberts
Dafydd Ll. Williams

Cynghorydd Sirol – Anwen Davies

Nerys Williams - Clerc

## 1. Ymddiheuriadau –

Cafwyd ymddiheuriadau gan:

Wynne Davies
Phil Roberts
Hughie Williams

## 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cymerwyd y Gadair gan y Cynghorydd Tesni W. Jones a chroesawodd pawb i'r cyfarfod. Cadarnhawyd cofnodion 14 Gorffennaf, 2022 yn gywir gan y Cynghorydd Catherine Hughes ac fe eiliwyd gan y Cynghorydd Einir Lewis.

## 3. Materion yn codi o'r cofnodion:-

*Gor-yrru ym Mhentref Rhydyclafdy* –

Nid oes ymateb wedi bod i'r ebyst diweddaraf ynglŷn â'r gor-yrru drwy bentref Rhydyclafdy a phenderfynwyd ail anfon at yr adran briodol yn pwyso arnynt i ddelio â'r mater fel mater o frys a hefyd holi os oes bwriad i roi arwyddion 20 milltir yr awr drwy bentref Rhydyclafdy.

4. Materion gohebiaeth

Derbyniwyd e-bost gan gwmni yswiriant Zurich yn ein hatgoffa bod y polisi yswiriant yn dod i ben ar 16 Medi, 2022 ac yn ein gwahodd i gario ymlaen eto am flwyddyn. Penderfynwyd derbyn y telerau am y flwyddyn 2022 / 2023 ac i anfon siec yn y swm o £257.60 iddynt.

Derbyniwyd ebost gan Rhian Elin George ynglŷn a Gweithdai Ardal Ni 2035 yn gwahodd dau gynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned i fynychu gweithdy yng Ngholeg Meirion Dwyfor, Pwllheli, ar nos Fercher, 28 Medi, 2022 am 6.15 p.m . Trafodwyd y mater a chytunodd y Cynghorydd Tesni W. Jones a'r Cynghorydd Einir Lewis gynrychioli Buan yn y gweithdy. Y Clerc i ateb Rhian George yn cadarnhau hyn.

5. Materion Ariannol

Derbyniwyd cysoniad banc o 4 Gorffennaf i 3 Awst, 2022 yn gywir yn y swm o £5044.90c.

Nid oedd cysoniad banc o 4 Awst, 2022 i 3 Medi, 2022 wedi cyrraedd hyd yn hyn. Bydd y clerc yn anfon copi at y Cynghorwyr cyn gynted ag y bydd yn ei derbyn.

Arwyddwyd siec yn ystod mis Awst gan ddau gynghorydd i dalu i Gyngor Gwynedd am archwilio ein cyfrifon yn y swm o £156.00c. (Siec rhif 200678).

Cafodd y sieciau isod eu harwyddo gan y Cynghorwyr Tesni Jones a Catherine Hughes ar ddiwedd y cyfarfod.

| | | |
|---|---|---|
| Bacstal | £141.60 | Siec Rhif 200679 |
| Zurich Insurance | £257.60 | Siec Rhif 200680 |
| Nerys Williams (Mis 6) (Dim i'w dalu mis 5) | £111.99 | Siec Rhif 200681 |
| Cyllid a Thollau (Mis 6) (Dim i'w dalu mis 5) | £27.80 | Siec Rhif 200682 |
| Bartle St. Tudwal's Ltd (Twnti) | £20.00 | Siec Rhif 200683 |

**6. Unrhyw fater arall**

Datganodd y Cynghorydd Einir Lewis bod dau frigyn go hegar yn dod allan i'r lôn rhwng Llidiart y Dŵr a Nant y Pwdin, Lôn Newydd, Nanhoron a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r adran briodol i ofyn a fusai'n bosib iddynt fynd i archwilio ac i dorri'r brigau.

Adroddodd y Cynghorydd Anwen Davies bod y gwaith ar Bont Bodfel yn dod ymlaen yn dda a gobeithid y bydd yn barod erbyn Mawrth, 2023.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15 p.m.

12. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf -

Nos Iau, 13 Hydref, 2022 am 7.30 p.m. yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy.